# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 3

ASESU ANGHENION UNIGOLION

*Asesu plant*

VALID FROM 06/04/2016

### 23 Gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer plentyn o dan 16 oed

(1) Os yw—

(a) plentyn o dan 16 oed yn gwrthod asesiad o anghenion o dan adran 21, a

(b) yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch gwrthod yr asesiad,

nid yw'r ddyletswydd o dan yr adran honno i asesu anghenion y plentyn yn gymwys.

(2) Os yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn o dan 16 oed yn gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer y plentyn hwnnw o dan adran 21, nid yw'r ddyletswydd o dan yr adran honno i asesu anghenion y plentyn yn gymwys.

(3) Ond nid yw gwrthodiad o dan is-adran (1) neu (2) yn rhyddhau awdurdod lleol o'i ddyletswydd o dan adran 21 yn yr achosion a ganlyn—

ACHOS 1 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, yn achos gwrthodiad a roddir gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, nad oes gan y person alluedd i benderfynu a wrthoda'r asesiad;

ACHOS 2 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, yn achos gwrthodiad a roddir gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn—

(a) bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch gwrthod yr asesiad, a

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/11/2014. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 23 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 31 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(b) nad yw'r plentyn yn cytuno â'r gwrthodiad a roddir gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn;

ACHOS 3 - mae'r awdurdod lleol wedi ei fodloni, yn achos gwrthodiad a roddir gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, y byddai peidio â chael yr asesiad yn anghyson â llesiant y plentyn;

ACHOS 4 - mae'r awdurdod lleol yn amau bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso, neu ei niweidio mewn modd arall.

(4) Pan fo awdurdod lleol wedi ei ryddhau o'i ddyletswydd o dan adran 21 drwy wrthodiad o dan yr adran hon, ailymrwymir i'r ddyletswydd—

(a) os yw'r plentyn yn gofyn wedyn am asesiad a bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus ynghylch cael asesiad,

(b) os yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn gofyn wedyn am asesiad, neu

(c) os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod anghenion neu amgylchiadau'r plentyn, neu anghenion neu amgylchiadau person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, wedi newid,

(yn ddarostyngedig i unrhyw wrthodiad pellach o dan yr adran hon).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 23 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/11/2014. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 23 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 31 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.